

Palasau Hywl



PALASAU HWYL CYNALIADWY

Palasau Hwyl Cynaliadwy

Mae Palasau Hwyl yn ymwneud â gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym wrth law a chreu rhywbeth anhygoel yn y fan a'r lle.

Mae'r mwyafrif helaeth o bobl bellach yn dechrau meddwl am gynaladwyedd a'r hyn y gallant ei wneud fel unigolyn i ddechrau taclo newid yn yr hinsawdd. Weithiau gall deimlo fel baich mawr, ond y newyddion da yw bod nifer fawr o fân bethau ac addasiadau y gallwch eu gwneud i'ch Palas Hwyl i'w wneud yn fwy cynaliadwy. A thrwy rannu eich arferion cynaladwyedd ag eraill, mae'n ddigon posib y byddwch yn eu hannog i wneud yr un peth. Trwy rannu a siarad am y pethau hyn y mae'r gair yn mynd ar led, a gall yr hyn a all deimlo fel dim ond un neu ddau o bobl fach sy'n gwneud newidiadau ar y dechrau arwain at ddegau, cannoedd - cymunedau cyfan yn rhoi mwy o ystyriaeth i gynaladwyedd.

Mae gan y Palasau Hwyl eu hunain rai syniadau cynaliadwy eisoes. Er enghraifft, yn ôl eu natur, maent yn lleol; cymunedau lleol yn dathlu'r diwylliant sydd eisoes yn bodoli ynddynt, heb orfod teithio i'r dref neu'r ddinas fawr agosaf ar gyfer y diwylliant hwnnw. Trwy leihau teithio i ddigwyddiadau, rydych yn lleihau eich ôl troed carbon.

Sut mae'r pecyn cymorth yma yn gweithio:

Pecyn cymorth mewn dwy ran yw hwn. Isod ceir rhai awgrymiadau a syniadau ar sut i fod yn fwy cynaliadwy wrth greu Palasau Hwyl. Mae [rhestr wirio](#) ar ddiwedd y pecyn cymorth y gallwch ei hargraffu neu gyfeirio ati, i'ch cefnogi yn eich camau cynllunio o ran sut y gallech wneud eich Palas Hwyl yn fwy llesol i'r hinsawdd.

Mae'r rhestr wirio hon hefyd ar gael fel [ffurflen ar-lein](#) (i arbed papur).

Rhannu Adnoddau:

Mae Palasau Hwyl yn ymwneud ag ailddosbarthu gofod ac adnoddau. Cyn i chi brynu unrhyw beth newydd ar gyfer eich Palas Hwyl, ystyriwch a oes ffynhonnell arall i gael gafaél arno ohoni'n gyntaf. Y newyddion da yw bod dewisiadau cynaliadwy hefyd yn debygol o fod yn ddewisiadau mwy darbodus ar gyfer eich Palas Hwyl. Yn hytrach na phrynu blychau di-rif o bennau blaen ffelt newydd - a oes clwb celf, grŵp Brownis, ysgol neu goleg sydd eisoes â rhai o'r rhain dros ben y gallent eu rhoi benthyg i chi? Os oes angen papur arnoch, neu

ddeunyddiau crefft eraill, a oes modd i chi roi galwad allan ar eu cyfer? Mae'n anhygoel beth sydd gan bobl mewn corneli o'u cartrefi, ac efallai y byddant yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael gwared ar ryw faint o'r annibendod o'u tŷ!

Ynni Gwyrdd

Un o'r ffyrdd fwyaf hwylus i unrhyw un ostwng eu hól troed carbon yw newid eu cyflenwr ynni i dariff ynni **adnewyddadwy** 100%.

Nid oes angen paneli solar ar eich to (mae'r rhain yn cŵl hefyd ond yn ddrutach) - mae angen i chi ofyn am dariff gwyrdd gan eich cyflenwr presennol neu newid i un newydd! Dim ond galwad ffôn neu glicied llygoden sydd ei eisiau, ac yn aml byddwch yn gweld ei fod yn rhatach hefyd! Bydd y rhan fwyaf o'r prif wefannau cymharu yn eich helpu i ddod o hyd i gyflenwr ynni gwyrdd. Cofiwch ddewis tariff sy'n siŵr o fod 100% yn adnewyddadwy ac yn hytrach na defnyddio nwy, byddwch yn coginio ar ynni'r **gwynt** a'r **haul**!

Gofyn y cwestiynau cynladwyedd:

Os ydych chi'n creu Palas Hwyl, mae'n debygol na fyddwch chi'n cael gwneud y penderfyniadau cynladwyedd mawr am gyflenwyr ynni. Fodd bynnag, os ydych yn cael eich lletya mewn lleoliad, a allwch chi ofyn iddynt beth yw eu polisi cynladwyedd? A oes ganddynt gyflenwr ynni gwyrdd? A ydynt yn ofalus ynghylch y defnydd o ynni yn yr adeilad? Ydyn nhw'n ailgylchu? Mae'n ddigon posib y bydd ganddynt bolisi cynladwyedd a'r atebion i'r holl gwestiynau hyn a allai, yn ei dro, fod yn berthnasol i'ch Palas Hwyl. Neu efallai nad ydynt wedi meddwl amdano hyd yn oed, ond gan i chi ofyn y cwestiwn hwnnw, byddwch wedi ysgogi eu meddwl yn ei gylch, ac yn ei dro efallai y bydd hynny'n eu dechrau ar eu taith gynladwyedd eu hunain - a dyna un ffordd y gall yr holl waith fynd ar led.

Gallwch holi eich cyflenwyr am hyn o beth hefyd - cyflenwyr celf, arlwywyr, gwasanaethau argraffu posteri (er y byddwn ni'n anfon posteri am ddim atoch, felly gofynnwch!) - unrhyw un sy'n darparu unrhyw beth newydd i chi.

Syniadau ar gyfer Dod o Hyd i Ddeunyddiau

Fat Llama (Gwefan lle gallwch chi rentu [bron] unrhyw beth. www.fatllama.com)
Library of things - Gwefan lle gallwch fenthgy offer www.libraryofthings.co.uk

Caffi Trwsio - Mae caffis trwsio yn gweithredu ar hyd a lled y DU ac maent yn fannau am ddim lle gallwch chi drwsio pethau (gyda'ch gilydd)<https://www.repaircafe.org/en/visit/>

The Restart Project: Sefydliad sy'n rhedeg Partis Ailgychwyn lle mae pobl yn dysgu ei gilydd sut i drwsio eu dyfeisiau sydd wedi mynd yn araf a thorri i lawr <https://therestartproject.org>

Scrapstore - Mae 'Scrapstores' yn fannau lle gallwch gasglu deunyddiau celf am gost isel neu am ddim. Maen nhw ar draws y DU - gwglwch eich un agosaf.

Ysgolion / colegau / prifysgolion - a all adrannau'r celfyddydau, gwyddoniaeth neu chwaraeon roi benthyg unrhyw beth i chi neu roi hen adnoddau i chi nad oes eu hangen arnynt mwyach?

Canolfannau Celfyddydau - efallai y bydd ganddynt nwyddau crefft fel siswrn / pennau / papur etc.

Grŵp Next Door - bydd www.nextdoor.co.uk yn eich cysylltu ag aelodau eraill o'ch cymuned, gallai hyn fod yn ffordd wych o gwrdd â phobl a dod o hyd i bethau.

Grwpiau Facebook lleol

Cydweithio â grwpiau lleol eraill: Er enghraifft, a oes gennych grŵp Extinction Rebellion lleol? Neu grŵp cadwraeth lleol? Dewch o hyd i'r bobl yn eich ardal sydd eisoes yn ymwneud â gwaith cynladwyedd. Gallwch siarad â hwy am Balasau Hwyl, a'r ffordd y maent yn dod â diwylliant i gymunedau lleol. Efallai y bydd rhai o'u haelodau yn awyddus i gymryd rhan yn eich Palas Hwyl a'ch cefnogi i ddod o hyd i ddeunyddiau, bod yn gynaliadwy a lledaenu'r gair.


Cludiant:

Allwch chi annog y rhai a all wneud i gerdded i'ch Palas Hwyl? Efallai y gallech chi dynnu llwybrau drwy eich pentref neu'ch tref gyda sialc - a allech ei wneud yn rhyngweithiol? Er enghraifft, gall pobl sy'n dilyn eich marciau neidio, troi, igam ogamu, troelli wrth iddynt ddilyn y llwybr (os ydynt am wneud hynny). Neu efallai y gallech ddarparu map trysor digidol i dywys pobl i'ch Palas Hwyl - gallech chi gynnwys rhai ffeithiau hanes neu ddiwylliant lleol ar hyd y ffordd. Neu os ydych chi'n fedrus iawn gyda thechnoleg efallai y gallech chi wneud rhestr chwarae Palas Hwyl i bobl wrando arni ar eu ffôn/clustffonau wrth iddynt deithio i'ch Palas Hwyl er mwyn codi eu hwyliau'n barod ar gyfer y digwyddiad. Gallwch chi ofyn iddynt hefyd - pan fyddwch yn gosod eich posteri yn yr ardal leol, gwahoddwch bobl i deithio i'ch Palas Hwyl heb ddefnyddio cerbyd, os ydyn nhw'n gallu.

Ar ôl y Palas Hwyl:

Oes gennych chi gynllun ar gyfer ailgylchu posteri / deunyddiau celf a chrefft dros ben? Ydych chi wedi meddwl am ailgylchu yn y lleoliad? Os nad ydynt yn ailgylchu, a allwch chi greu cynllun ar gyfer cael gwared ar wastraff yn y ffordd fwyaf cynaliadwy sy'n bosib? (A gofynnwch i'r lleoliad a fyddan nhw'n dechrau meddwl am ailgylchu). Beth am roi'r pennau blaen ffelt y bu'n rhaid i chi eu prynu i grŵp Brownis neu drefnu cyfnewid adnoddau gyda brenhinoedd a breninesau Palasau Hwyl eraill? Allwch chi roi propiau, cefndiroedd neu wisgoedd dros ben i grŵp theatr lleol neu hyd yn oed eu gwerthu i godi arian ar gyfer elusen? A allwch ei gwneud yn genhadaeth i anfon cyn lleied â phosib o'ch Palas Hwyl i safleoedd tirlenwi?

Ymgylfarwyddwch â'r hierarchaeth wastraff, byddwch eisiau gweithio o'r brig i lawr wrth ddod o hyd i ddeunyddiau ar gyfer eich Palas Hwyl ac wrth glirio i fyny ar ôl eich Palas Hwyl.



Mwy o wybodaeth a sefydliadau i fwrw golwg arnynt:

www.wearepossible.org

www.theclimatecoalition.org

www.juliesbicycle.co.uk

<https://wearealbert.org/search-suppliers/>

<https://www.green-providers.co.uk/>

<https://energysavingtrust.org.uk/>

<https://www.moneysupermarket.com/gas-and-electricity/green-energy/>

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau cynaladwyedd ar gyfer Crewyr Palasau Hwyl eraill, byddem wrth ein bodd â chlywed oddi wrthych! Gyrrwch e-bost at amie.t@funpalaces.co.uk i rannu eich awgrymiadau a'ch syniadau.

Sgrolwch i lawr ar gyfer y rhestr wirio

Rhestr Wirio Eich Palas Hwyl:

Gallwch argraffu hwn i'w lenwi wrth i chi ddechrau cynllunio eich Palas Hwyl. Mae hefyd ar gael fel docx [yma](#). Neu, os ydych eisiau llenwi fersiwn ar-lein o'r ffurflen, gallwch wneud hynny [yma](#). (Bydd tîm pencadlys y Palasau Hwyl yn gallu gweld beth rydych chi'n ei ysgrifennu, ond nid unrhyw un arall.)

Awgrymiadau	Gwnewch nodiadau yma:
A all eich syniad ar gyfer Palas Hwyl gynnwys rhai negeseuon sy'n bositif o ran yr hinsawdd yn ei thema? Dyma rai syniadau: Sut mae'r anifeiliaid yn gwneud e? (Gwneud y gorau o'r hyn sydd o'u cwmpas heb greu llawer o wastraff). Beth wnaeth eich hen, hen fam-gu/nain mor wych? (Sut roedd hi'n fwy cynaliadwy nag yr ydym ni nawr?) Ffasiwn Da Vs Ffasiwn (cyflym) llai da Llysiau: llesol i'r blaned ac i chi! A allwch chi dyfu rhai? Dosbarth coginio fegan / llysieuol cynaliadwy. Sgwrs ar sut i fod yn gynaliadwy mewn busnes. Sesiwn ar wneud eich bywyd digidol yn fwy gwyrdd. Pa straeon fyddwn ni'n eu hadrodd pan fyddwn ni'n 90 oed? Gorsaf gwellgylchu/ailbwrpasu. Cyfnewid dillad. Troi rhywbeth wyneb i waered a gwneud rhywbeth annisgwyl! (plannu pobl / mynd â llyfrau i lyfrgell / creu cwpwrdd adnoddau mewn parc)	

Awgrymiadau	Gwnewch nodiadau yma:
Pa elfennau o'ch syniad Palas Hwyl sy'n debygol o greu'r mwyaf o garbon deuocsid? Dyma rai o'r pethau y gallech chi feddwl amdanynt: Teithio Deunyddiau Gwres/golau'r lleoliad A oes unrhyw beth y gallwch ei wneud i leihau hyn?	
Sut y byddwch chi'n hysbysu pobl fel y gallant ddod i'ch Palas Hwyl? Ceisiwch feddwl am ffyrdd mwy gwyrdd o ledaenu'r gair, ond peidiwch ag anghofio cynnwys pobl; nid oes gan tua 1.5 miliwn o gartrefi yn y DU fynediad i'r rhyngrwyd, sut allwch chi fod yn siŵr o roi gwybod i'r rhai nad ydynt ar-lein am eich Palas Hwyl?	
Sut alla i adael digon o amser i gynllunio fy Mhalas Hwyl a gwneud penderfyniadau sy'n wirioneddol dda a chynaliadwy? Neu os ydych chi'n creu Palas Hwyl munud olaf (ac rydyn ni'n hoff iawn ohonyn nhw hefyd!) sut allwch chi wneud y gorau o'r hyn sydd eisoes ar gael? Does dim angen dechrau siopa mewn panig ar Amazon!"	
Beth yw'r pethau ffisegol sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy Mhalas Hwyl?	

Awgrymiadau	Gwnewch nodiadau yma:
Pwy yw'r bobl y gallaf ofyn iddynt roi benthyg adnoddau i mi neu a fyddai'n fodlon rhoi rhai pethau i fy Mhalas Hwyl? Rydym wedi darparu rhestr o syniadau ar gyfer hyn isod!	
Pa un o gyflenwyr eich Palas Hwyl fydd yn fodlon i chi ofyn rhai cwestiynau anodd iddynt? Neu i'w hysbrydoli! Dyma rai syniadau: Cwmnïau arlwyo Cyflenwyr deunyddiau celf Eich lleoliad Gweler yr adran: 'Gofyn y cwestiynau Cynladwyedd' i gael rhagor o wybodaeth am hyn.	
Petai modd i bawb sy'n dod i'ch Palas Hwyl adael gydag un syniad positif am yr hinsawdd i fynd ag ef adref neu i'r gwaith, beth fyddai hynny?	